

YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL GYMRAEG ABERYSTWYTH **2017**

ADRODDIAD BLYNYDDOL LLAWN I RIENI / GWARCHEIDWAID

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mae'n fraint ac anrhydedd i mi fel Cadeirydd y Corff Llywodraethol gyflwyno adroddiad blynyddol ar gyfer Ysgol Gymraeg Aberystwyth.

Braf oedd derbyn adroddiad rhagorol gan y Corff Arolygu ysgolion Estyn yn ystod Tachwedd 2017, mae'r grynodedd ar gyfer yr adroddiad yn nodi:

“Mae holl waith a bywyd yr ysgol yn seiliedig ar dri nod cytûn ar gyfer ei disgyblion a'i staff, sef hybu balchder yn eu Cymreictod, parchu ei gilydd a gwneud eu gorau glas. Mae'r nodau hyn yn treiddio'n gryf iawn trwy ei holl weithgareddau. Yn ystod eu cyfnod yno, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cryf iawn. Maent yn perfformio ar lefelau sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir, tra bod dros hanner yn gyson yn cyflawni y tu hwnt i hyn. Mae llais y disgybl yn bwysig ac yn cael ei barchu drwy'r ysgol. O ganlyniad, mae safonau lles ac agweddau bron pob un disgybl tuag at ddysgu yn gryf. Mae ansawdd yr addysgu a'r profiadau dysgu o safon uchel iawn ac mae'r gefnogaeth ar gyfer sicrhau lles disgyblion yn nodwedd arbennig. Caiiff yr ysgol ei harwain yn effeithiol iawn gan bennaeth hyderus a chreadigol ac mae'r uwch dîm rheoli yn ei gefnogi'n gydwytbodol gan sicrhau bod yr ysgol yn darparu addysg sy'n gyson o ansawdd uchel iawn ac sy'n seiliedig ar gynnal a chodi safonau”

Adroddiad Estyn, Tachwedd 2016

Mi fyddem yn eich hannog i ddarllen yr adroddiad yn ei gyfanrwydd, mae copi ar wefan yr ysgol

Pleser gennyf yw diolch i'r Pennaeth, y Dirprwy, yr holl athrawon, cynorthwy-wyr dysgu, staff ategol, y rhieni / gwarcheidwaid yn ogystal â'r disgyblion am lwyddiant cyson yr ysgol. Mae'n amlwg fod nodau'r ysgol o safbwynt Cymreictod, Parchu ein gilydd a Gwneud ein gorau glas yn parhau i ddylanwadu'n bositif ar y disgyblion ac yn cael effaith ar bawb sy'n nghlwm â'r sefydliad unigryw hwn. O ganlyniad i'r safonau dysgu ac addysgu uchel sy'n bodoli mae'r ysgol wedi ei chategoreiddio fel ysgol werdd gan Lywodraeth Cymru ac yn gweithredu fel ysgol Arloesol y Fargen Newydd.

Roedd 418 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ym Mis Gorffennaf 2017 gyda Phennaeth, Dirprwy Bennaeth, 15 athrawon amser llawn amser a 6 o thrawon rhan amser. Mae tri aelod o'r staff yn gweithredu fel Penaethiaid Adran yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a'r Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae gan yr ysgol dîm effeithiol o Gynorthwywyr sy'n cynorthwyo yn y Cyfnod Sylfaen ac yn cefnogi disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae gan yr ysgol griw gweithgar o staff ategol sy'n cefnogi gwaith o ddarparu y cyfleoedd gorau i'r disgyblion. Mae'r tîm yn cynnwys ysgrifenyddes, gofalwr, tri o lanhawyr, pump o gynorthwywyr cinio a phump o staff yn y gegin.

Amser a lleoliad y Cyfarfod - Mae'r gofynion ar gyfer yr angen i gynnal Cyfarfod Blynyddol y Llywodraethwyr wedi newid (gweler y manylion isod) serch hynny mi fyddwn yn darparu cyfle i drafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol, gwaith y llywodraethwyr a'r Awdurdod Addysg fel rhan o Gyfarfod Blynyddol y Gymdeithas Rieni ac Athrawon a gynhelir yn yr ysgol Gymraeg ar nos Lun, Medi 25ain am 6.30. Mi fydd Cadeirydd y Llywodraethwyr hefyd yn bresennol yn y cyfarfod.

Ni fu galw dros gynnal cyfarfod o'r Llywodraethwyr gyda'r Rhieni yn unol ag adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru 2013) yn ystod y flwyddyn addysgol 2015-16.

Gweler y manylion isod sy'n tynnu sylw at ofynion cynnal cyfarfod blynyddol.

Newidiadau i gyfarfodydd Blynyddol y Rhieni / Llywodraethwyr

Mae Adran 94 y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn gwneud newidiadau pwysig i'r trefniadau deddfwriaethol blaenorol oedd yn ymwneud â Chyfarfodydd Blynyddol y Rhieni/Llywodraethwyr. Mae'n darparu trefniadau newydd lle gall rhieni ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethol.

Fodd bynnag, bydd angen i'r rhieni fodloni pedwar (4) gofyniad statudol wrth alw cyfarfod sef:-

- (i) rhaid i rieni 10% o'r disgyblion cofrestredig, neu rieni 30 o'r disgyblion cofrestredig (pa un bynnag sydd isaf) arwyddo deiseb yn gofyn am gyfarfod;*
- (ii) rhaid mai diben y cyfarfod yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol;*
- (iii) y nifer fwyaf o gyfarfodydd y gall rhieni ofyn amdanynt o fewn unrhyw flwyddyn ysgol yw tri (3);*
- (iv) rhaid bod yna ddigon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i ganiatáu cyfarfod.*

At hynny:-

- (a) rhaid cynnal y cyfarfodydd cyn diwedd cyfnod o 25 niwrnod;*
- (b) mae'r cyfnod o 25 niwrnod yn cychwyn y diwrnod ar ôl derbyn y ddeiseb, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod ysgol;*
- (c) os oes angen cynnal cyfarfod arall o ganlyniad i ddeiseb wahanol, ni fydd y cyfnod o 25 niwrnod yn dechrau tan y diwrnod ar ôl cynnal y cyfarfod arall;*
- (ch) rhaid bod digon o ddyddiau ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gynnal cyfarfod cyn diwedd y cyfnod o 25 niwrnod;*
- (d) bydd cyfarfodydd yn agored i holl rieni'r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y Pennaeth ac unrhyw un arall a wahoddir gan y corff llywodraethol;*
- (dd) mae'n rhaid i hysbysiad y cyfarfodydd i'r rhieni gynnwys dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod ynghyd â'r mater neu faterion i'w trafod.*

Y mae copi o'r adroddiad hwn ar gael yn Adran y Llywodraethwyr ar safle wê'r ysgol – www.ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk.

Clerc y Llywodraethwyr – Adran Addysg Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UE.

Cadeirydd y Llywodraethwyr – Mr Dewi Jones, Brynlllys, 26 Cefnllan, Llanbadarn, Aberystwyth, Ceredigion. SY245BZ

Trefniadau etholiad nesaf y Corff Llywodraethol – mi fydd yr Awdurdod Addysg a'r ysgol yn hysbysu rhieni / gwarcheidwaid am drefniadau unrhyw gyfleoedd i fod yn rhan o'r Corff Llywodraethol a threfniadau etholiadau.

Hyfforddiant Mewn Swydd - gellir cael manylion llawn o'r cyrsiau a fynychwyd gan y staff rhwng Medi 2015 a Gorffennaf 2016 o'r ysgol. (gweler engreiffiau o'r cyrsiau isod) Carwn ddiolch i'r staff am fynychu'r cyrsiau hyn.

Dyma flas o'r Hyfforddiant Mewn Swydd a fynychwyd;

Medi 2016	Hyfforddiant i staff ysgol gyfan ar iechyd a diogelwch, polisiau diogelu, a pholisiau cwricwlaidd. Adolygwyd cynlluniau gwaith yr ysgol a threfniadau gofalaeth amser chwarae.
Hydref 2016	Hyfforddiant ar gyfer Ysgolion Arloesol yng Nghaerdydd
Tachwedd 2016	Hyfforddiant ar gyfer y Fframwaith Ddigidol
Ionawr 2017	Datblygiadau Donaldson a'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer athrawon
Ionawr 2017	Hyfforddiant ar gyfer Addysg Grefyddol

Mawrth 2017	e-ddiogelwch
Mawrth 2017	Diogelu Plant
Ebrill 2017	HMS - athrawon C.A. 2 a C.S. yn cymedroli clwstwr
Mai 2017	Rhifedd
Mai 2017	Hyfforddiant awtistiaeth
Gorffennaf 2017	Pennaeth ar gwrs diweddarau i arolygwyr Estyn.

Cyfleoedd i rannu Arferion da gydag ysgolion a sefydliadau

Yn ystod y flwyddyn mae'r ysgol wedi cael cyfleoedd i rannu arferion da gydag ysgolion ar draws Cymru. Bu'r Pennaeth yn cyflwyno diweddariad i Benaethiaid Ceredigion am waith yr ysgol arloesol. Bu staff o'r ysgol yn rhannu arferion da ym maes dysgu digidol mewn cynhadledd yng Ngheredigion. Yn dilyn arolwg rhagorol cafwyd nifer o ymweliadau gan staff o ysgolion Bro Hyddgen, Ysgol y Wern yng Nghaerdydd, clwstwr o ysgolion o Bowys, ysgol Aberaeron, Pontrhydfendigaid, Mynach, Syr John Rhys, Rhydypennau a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant.

Cyfarfod Blynyddol (Hydref 2016)

Nid oedd galw am gyfarfod yn ystod Hydref 2016. Cafwyd cyfle i drafod datblygiadau'r ysgol yn ystod Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas Rieni ac Athrawon - rhoddwyd cyflwyniad am feysydd penodol yn ymwneud â dysgu ac addysgu a'r Cynllun Datblygu Ysgol.

Camau a gymerwyd o ganlyniad i unrhyw benderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod - Ni chafwyd penderfyniad yng nghyfarfod Hydref 2016.

Y Corff Llywodraethol

Mr Dewi Jones	ALI	04/11/2019
Cllr John Roberts	ALI	09/05/2021
Ms Meleri James	ALI	20/12/2017
Cllr Mark Strong	ALI	09/05/2021
Dr Heather Williams	Rhiant	20/12/2017
Mrs Nia Gwyndaf	Rhiant	02/10/2017
Mr Rhodri Francis	Rhiant	16/11/2019

Ms Nia Evans	Rhiant	06/10/2020
Mr Geraint Pugh	Rhiant	16/11/2019
Ms Catrin Pugh-Jones	Cymunedol	06/10/2020
Mr Arwel Thomas	Cymunedol	02/10/2017
Mr Owain Schiavone	Cymunedol	20/12/2017
Dr Glenys Williams	Cymunedol	07/02/2021
Cllr Mari Turner	Cymunedol	17/05/2021
Mr Llyr Evans	Athro	23/03/2021
Mr Gareth James	Athro	03/11/2018
Mrs Eiry Evans	Staff	03/11/2019
Mr Clive Williams	Pennaeth	

Manylion ariannol -

- Gweler atodiad sy'n amlinellu datganiad llawn o gyllideb yr ysgol.

Sut mae'r ysgol yn defnyddio'r arian a dderbynir

- Mae toriadau o safbwynt y gyllideb wedi gorfodi'r ysgol i addasu'r swm o arian sydd ar gael ar gyfer cynnal a chadw ac ar gyfer adnoddau cyffredinol yr ysgol. Yn ffodus ni fu angen effeithio ar nifer staff yr ysgol eleni.
- Defnyddiwyd cyllideb yr ysgol er mwyn sicrhau y profiadau addysgol gorau i'r disgyblion ac i sicrhau adnoddau addas ar eu cyfer. Cryfder y trefniant presennol yw sicrhau ein bod yn medru cynnal dau ddsbarth ar gyfer pob blwyddyn.
- Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid ychwanegol i dargedu llythrennedd a rhifedd.

Grant Amddifadedd Cymdeithasol - Mae'r Grant Amdifadedd Cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol er mwyn diwallu anghenion disgyblion penodol, trefnwyd adnoddau a staff ychwanegol i gefnogi a chodi safonau yn y meysydd yma.

Rhoddion i'r ysgol

- Derbyniwyd cyfraniadau hael gan y Gymdeithas Rieni sy'n cynnwys nawdd gan fusnesau lleol yn sgil noddi cyngherddau Nadolig a Haf. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth yn fawr.
- £1,500 – Cyfraniad tuag at Llong Ned
- £4,000 – adnoddau cyffredinol i bob dosbarth
- £980 – cyfraniad o £10 y plentyn ar gyfer Gwersyll Glanllyn
- £3,305 – cyfraniadau ar gyfer costau bysiau (mae'r Gymdeithas Rhieni yn talu hanner costau teithio pob gwibdaith / ymweliad.
- £850.00 – costau defnyddio'r Neuadd Fawr
- Mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn am gyfraniad ariannol a chefnogaeth ymarferol y Gymdeithas Rieni ac Athrawon drwy gydol y flwyddyn.
- £200 – rhodd gan Emma Small

Lwfansau neu gynhaliaeth i'r Bwrdd llywodraethol

- Costau teithio y Llywodraethwyr – Ni dalwyd unrhyw gostau i'r llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn 2015-16. Dymunaf ddiolch i'm cyd lywodraethwyr am roi eu gwasanaeth yn hollol wirfoddol er budd a lles yr ysgol.

Mae'r ysgol yn bles iawn gyda'r cynnydd sydd i'w weld yn asesiadau'r disgyblion yn y ddau Gyfnod Allweddol (Gweler atodiadau am asesiadau disgyblion) mae'r canlyniadau rhagorol yn adlewyrchiad o waith caled y disgyblion, y staff a chydweithrediad y rhieni / gwarcheidwaid. Mae'r ysgol yn perfformio yn dda iawn o gymharu ag ysgolion tebyg yn sirol ac yn genedlaethol.

Presenoldeb y disgyblion

Cyfnod	Presennol	Absenoldeb gyda chaniatad	Absenoldeb heb ganiatad
Hydref	96.25	2.94	0.81
Gwanwyn	96.59	2.96	0.45
Haf	95.71	2.43	1.86

Sylwebaeth am bresenoldeb yr ysgol

Rydym yn bles gyda chyfartaledd presenoldeb yr ysgol. Gosodwyd targedau gan y llywodraethwyr am y dair blynedd nesaf er mwyn parhau i wella presenoldeb. Bu'r ysgol yn rhoi ffocws ar brydlondeb yn ystod tymor yr Haf 2017, hoffwn ddiolch I'r rhieni a'r gwarchodwyr am ymateb yn bositif i'r ymgyrch.

Gwella presenoldeb a lleihau absenoldebau anawdurdodedig

Mae'r ysgol yn dilyn camau pendant i leihau absenoldebau heb ganiatad, Mae plant sy'n cyrraedd yn hwyr yn medru effeithio ar absenoldebau anawdurdodedig. Mae'r ysgol yn danfon llythyr i rieni i bwysleisio prydlondeb ac i dynnu sylw at y sefyllfa lle mae rhai yn cymryd gwyliau yn ystod tymor yr ysgol. Mae'r ysgol yn cysylltu gyda rhieni / gwarcheidwaid lle mae lefel presenoldeb yn isel neu'n anghyson.

Targedau ar gyfer presenoldeb

Targedau presenoldeb am y flwyddyn addysgol 2017-2018 - 96.7%

Targedau presenoldeb am y flwyddyn addysgol 2018-2019 - 96.8%

Targedau presenoldeb am y flwyddyn addysgol 2019-2020 - 96.9%

Plant sy'n gadael yr ysgol ar ddiwedd Blwyddyn 6 – mae disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 6 yn trosglwyddo fel arfer i ysgolion uwchradd y dref sef Penweddig a Phenglais. Eleni aeth 42 i Benweddig a 6 i Benglais. Mae gan yr ysgol bartneriaeth bositif gyda'r ysgolion uwchradd ac yn gweithredu cynlluniau pontio effeithiol. Dymunwn yn dda i'r criw fydd yn trosglwyddo eleni.

Meithrin cysylltiadau rhwng yr Ysgol a'r Gymuned

Y mae'r ysgol yn un o brif sefydliadau'r dref ac yn rhan annatod o'r gymuned leol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd arbennig o adnoddau lleol gan gynnwys y Llyfrgell Genedlaethol, Y Brifysgol, Canolfan Hamdden, Canolfan y Celfyddydau a'r ysgol uwchradd leol. Bu'r ysgol ar nifer o ymweliadau addysgol gan gynnwys Castell Henllys, Ffermydd lleol, Glanllyn a.y.y.b. Bu'r ysgol yn perfformio i fudiadau lleol ac mae cefnogaeth dda iawn i'r ddau gyngerdd mawreddog blynyddol yng Nghanolfan y Celfyddydau.

Cynhaliwyd gweithgareddau er mwyn hybu dealltwriaeth o godi arian at achosion da yn ystod y flwyddyn. Casglwyd cyfanswm o dros £512 ar gyfer Plant Mewn Angen a £354 i ddiwrnod y Trwynau Coch.

Cymdeithas Rieni ac Athrawon / Cyfeillion yr Ysgol

Hoffwn ddiolch i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon a holl gyfeillion yr ysgol am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gymdeithas Rieni ac athrawon yn weithgar a brwdfrydig iawn ac yn llwyddo i gynnal amrywiol weithgareddau i godi arian tuag at brynu adnoddau ac i drefnu achlysuron cymdeithasol gyda naws deuluol Gymreig iddynt.

Cynhaliwyd gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys Ffair lyfrau, Cyngherddau, Disgo Dwynwen. Prynawn Coffi, Noson Gymdeithasol / Barbeciw a Thaith Gerdded Noddedig. Bydd adroddiad llawn o'r gweithgareddau a'r arian a godwyd yng nghyfarfod blynyddol y Gymdeithas Rhieni yn nhymor yr Hydref.

Cyfarfodydd Rhieni / gwarcheidwaid - mae yna bartneriaeth ragorol yn bodoli gyda'r rhieni. Yn ystod y flwyddyn

Trefnir;

- Cyfarfod blynyddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.
- Nosweithiau agored bob tymor a gwahoddiad i'r rhieni / gwarcheidwaid i ddod i'r ysgol ar ôl derbyn adroddiadau eu plant ym mis Gorffennaf.
- Gwahoddiad i rieni /gwarcheidwaid ddod i brynhawn agored yn yr ysgol.
- Gwahoddiad i rieni / gwarcheidwaid fynychu gwasanaethau boreol.
- Gwahoddiad i fabolgampau'r ysgol.
- Cynhelir dau gyngerdd mawreddog y flwyddyn (gyda thua 800 yn mynychu bob tro).
- Cyfarfod ar gyfer rhieni / gwarcheidwaid plant y meithrin sydd am gychwyn yn yr ysgol.
- Cyfarfod rhwng rhieni / gwarcheidwaid plant sy'n derbyn cefnogaeth a'r athrawon arbenigol.
- Mae'r pennaeth yn nodi ar bob llythyr "os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith"

Defnydd o'r adeilad / campws - Cyfarfod rhieni ac athrawon yr Ysgol Gymraeg, rhai timau pêl-droed, yr Angor (papur bro Aberystwyth), Adran Tref Aberystwyth, Cyfarfodydd Cenedlaethol yr Urdd, Eisteddfodau'r Urdd, Gang y Graig a'r Clwb Bridge.

Cysylltiadau gyda'r heddlu – mae swyddogion o'r heddlu yn gweithio'n agos gyda'r ysgol ac yn cyfrannu yn bositif at weithgareddau addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r heddlu yn trafod gyda'r Cyngor Ysgol ac yn cynorthwyo gyda'r drafnidiaeth ger mynedfa'r ysgol.

Cynnydd ar Gynllun Gweithredu'r Ysgol (ar ôl arolygiad)

Mae'r ysgol yn gweithredu'r Cynllun Gweithredu yn dilyn adroddiad Estyn 2016. Dyma grynodeb o'r datblygiadau.

Disgrifiad/gweithgaredd/cynnydd	Cynnydd
A1 Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a thechnoleg (TGCh) disgyblion yn adeiladu'n fwy systematig ar y rheini y maent eisoes wedi eu caffael	Mae'r ysgol gweithredu cynllun gweithredu yn dilyn Arolwg 2016. Mi fydd ffocws y cynllun ar ddatblygu agweddau o ddysgu Digidol. Mae Llŷr Evans yn gyswllt rhwng yr ysgol a'r Awdurdod Addysg (yn benodol Kay Morris, Athrawes Ymgynghorol TGCh) Mae cyfarfod pob hanner tymor er mwyn tracio cynnydd yr ysgol o safbwynt addasu y Fframwaith Ddigidol Genedlaethol. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio ar bersonoli y Fframwaith i ofynion a themau yr Ysgol Gymraeg. Mae amserlen gadarn yn ei lle ar gyfer ffocysu ar y gwahanol agweddau sydd o fewn y fframwaith.

Hunanarfarnu a Chynllun Datblygu Ysgol

Prif flaenoriaethau'r ysgol

1. Ymestyn y disgyblion Mwyaf Abl a Thalentog ar draws yr ysgol gan ganolbwyntio yn benodol ar ddarllen a gwaith llafar y bechgyn ar y lefelau uwch.
2. Codi safonau llythrennedd grwpiau penodol o ddisgyblion ar draws yr ysgol.
3. Codi safonau Rhifedd grwpiau penodol o ddisgyblion ar draws yr ysgol.

4. (Estyn 2016) A1 Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a thechnoleg (TGCh) disgyblion yn adeiladu'n fwy systematig ar y rheini y maent eisoes wedi eu caffael
5. Adeiladu ar strategaethau a phartneriaethau Ysgolion Arloesol er mwyn mynd i'r afael â gofynion y ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' (Donaldson) – y nôd yw datblygu cwricwlwm sy'n ennyn brwdfrydedd a chwilfrydedd.
6. Datblygu defnydd cymdeithasol y disgyblion o'r Gymraeg yn yr ysgol gan ddilyn strategaethau Siartr Iaith Ceredigion

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da i ddatblygu agweddau y Cynllun Datblygu Ysgol yn ystod y flwyddyn flaenorol – gellir cael copi llawn o'r CDY gan y pennaeth.

Gwelliannau a osodwyd gan y Corff Llywodraethol ynglŷn â pherfformiad y disgyblion

Targedau ar gyfer y dair mlynedd nesaf

Gweler y targedau ar gyfer nifer y disgyblion fydd yn cyrraedd deilliant 5 neu'n uwch yn y Cyfnod Sylfaen a lefel 4 neu'n uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 am y dair mlynedd nesaf. Mae'r ysgol yn gosod y targedau yma yn sgil y wybodaeth bresennol sydd gennym am y disgyblion yn ôl asesiadau athrawon blyneddol. Yn ogystal â hyn rydym yn gosod lefel o her ar gyfer y dyfodol er mwyn codi safonau yn barhaus.

	Haf 2017	Haf 2018	Haf 2019
Cyfnod Sylfaen	98% (cyfartaledd DCS)	98%	98.5%
Cyfnod Allweddol 2	97% (cyfartaledd DPC)	97.5%	98%

Sylwebaeth

- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o safbwynt asesiadau'r disgyblion yn y ddau Gyfnod Allweddol.
- Mae'r canlyniadau yn adlewyrchu yn bositif ar y targedau heriol â osodwyd pob blwyddyn.
- Yn dilyn asesiadau cyson a nifer o brofion nodir pa lefel / deilliant y mae pob plentyn yn cyrraedd erbyn diwedd y flwyddyn. Ceir cysylltiad agos rhwng athrawon er mwyn cymedroli lefelau ac adnabod y ffordd ymlaen i'r plentyn unigol.
- Mae plant yn derbyn targedau cyson mewn Iaith, Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2.
- Fel ysgol rydym yn anelu i sicrhau bod 98% o blant yn y Cyfnod Sylfaen a 97% o blant yn Cyfnod Allweddol 2 yn cyrraedd y lefel / deilliant disgwylidig (deilliant 5 neu'n uwch ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a lefel 4 neu'n uwch ar gyfer CA 2).
- Rhoddir adroddiad manwl i bob rhiant ar ddiwedd y flwyddyn a bydd nosweithiau agored cyson a chyfle i drafod yr adroddiad diwedd y flwyddyn.

Diarddel Plant

Gwaharddwyd un disgybl (dros dro) yn ystod y flwyddyn addysgol 2016-17

Adolygu Polisiau a strategaethau'r ysgol – mae'r ysgol yn adolygu polisiau yn gyson er mwyn sicrhau y ddarpariaeth orau ar gyfer y disgyblion. Yn ystod 2016-17 adolygwyd holl bolisiau'r ysgol ac yn benodol y rhai sydd yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, diogelu plant, bwlio, a rhai agweddau cwricwlaidd. Mae copiau o'r polisiau ar gael o'r ysgol neu ar y wefan. Mae'r rhestr o'r polisiau sydd wedi eu hadolygu yng nghofnodion y llywodraethwyr ger y brif fynedfa.

Gweithredu ar ôl adolygu polisiau - Mae'r datblygiadau yn cael eu monitro'n gyson yn y cyfarfodydd tymhorol. Mae staff o'r ysgol wedi derbyn hyfforddiant pellach ar ddiogelu plant a gweithredu gweithdrefnau ysgol awtistiaeth gyfeillgar.

Chwaraeon a Gweithgareddau Allgyrsiol

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon ym mhob agwedd o Addysg Gorfforol. Mae'r disgyblion yn meithrin sgiliau a phrofiadau o'r Meithrin i fyny at Flwyddyn 6. Mae'r ysgol yn profi llwyddiant ar lefel genedlaethol ac yn 2016-17, llwyddwyd i gyrraedd safonau uchel yn rowndiau cenedlaethol mewn nofio, trawsgwlad, pêl-droed, gymnasteg, pêl-rhwyd, hoci, athletau a chriced.

Mae yna raglen allgyrsiol eang sy'n anelu at foddio diddordebau holl ddisgyblion yr ysgol. Cyhelir Clwb yr Urdd yn wythnosol lle mae staff yr ysgol yn gwirfoddoli i gynnig gweithgareddau amrywiol i'r disgyblion. Mae'r gweithgareddau yng Nghyfnod Allweddol 2 yn cynnwys chwaraeon, clwb rhedeg wythnosol chwys trabŵd, clwb celf, clwb gymnasteg a chlybiau gweithgareddau amrywiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgol yn cefnogi gweithgareddau hoci gyda chyngrhair y Mini Minor pob nos Wener.

Mae cysylltiad cryf yn bodoli rhwng yr ysgol â mudiad yr Urdd ac mae disgyblion yn cael profiadau cyfoethog wrth ddilyn rhaglen o weithgareddau'r flwyddyn. Pob blwyddyn mae staff yr ysgol yn paratoi disgyblion ar gyfer yr eisteddfodau cylch, rhanbarthol a chenedlaethol ac yn profi llwyddiant mewn amrywiol feysydd ar lefel genedlaethol. Mae'r ddau gyngerdd a gynhelir yn y Neuadd Fawr yn boblogaidd iawn gan y rhieni a'r gymuned. Bu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhenybont ar Ogwr yn llwyddiannus gyda'r disgyblion yn cael profiadau cyfoethog mewn nifer o feysydd. Llwyddwyd i gipio'r 2ail wobwr gyda'r Ensemble offerynnol gyda'r Côr Cerdd dant yn dod yn 3ydd. Hoffwn ddiolch i'r holl hyfforddwyr am eu gwaith ac i'r rhieni am bob cydweithrediad a chefnogaeth.

Bwyta ac yfed yn iach – mae'r ysgol yn hybu iechyd y disgyblion ac yn awyddus eu bod yn magu patrymau iachus o fwyta ac yfed. Mae cinio ysgol iachus yn cael ei ddarparu yn ddyddiol ac anogir disgyblion i fwyta pecynnau bwyd iach i ginio. Mae'r siop ffrwythau ar agor yn ddyddiol ac mae digon o ddŵr ar gael i'r disgyblion, anogir pob disgybl i ddod â photel blastig bwrpasol ar gyfer ei llenwi yn ystod y dydd.

Newidiadau i Lawlyfr yr ysgol – Mae'r llawlyfr yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn dymhorol. Mae copi o'r llawlyfr ar gael ar wefan yr ysgol neu drwy law'r pennaeth. Bu newidiadau i gynnwys y llawlyfr yn ystod y flwyddyn gyfredol er mwyn gwella'r diwyg.

Dyddiadau'r tymor ar gyfer y flwyddyn
(gweler atodiad)

Diwrnodau cau HMS

Medi 4ydd, 2017, Tachwedd 17eg, 2017 ac Ebrill 16eg, 2018

Amserau Sesiynau

	CA 2	Cyfnod Sylfaen	Meithrin
Cychwyn yr ysgol	9.00	9.00	9.00
Egwyl bore	10.30 – 10.45	10.30 – 10.45	10.30 – 10.45
Cinio	12.00 – 1.00	11.45 – 1.00	11.50 – 1.15
Cychwyn y	1.00	1.00	1.15

prynawn			
Egwyl y prynhawn	2.20 – 2.30	2.20 – 2.30	2.20 – 2.30
Amser gorffen	3.30	3.30 (Bl 1 a 2) 3.20(Derbyn)	3.20

Cwricwlwm a threfniadaeth addysgu

Mae'r ysgol bellach yn un o ysgolion arloesol y fargen newydd ac yn gweithredu fel sefydliad sy'n rhannu arfer dda ac yn arloesi ym myd addysgu a dysgu. Mae ansawdd ac amrywiaeth y profiadau dysgu a ddarperir i'r disgyblion ar draws yr ysgol yn bwysig iawn i ni. Cynigir cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwrdd â'r holl ofynion statudol. Mae'r athrawon yn parhau i adolygu'r cwricwlwm yn sgil datblygiadau newydd. Mae pwyslais mawr yn cael ei osod ar ddatblygu sgiliau cyfathrebu, sgiliau rhif, sgiliau TGCh a sgiliau meddwl. Mae'r ysgol wedi cydweithio yn agos iawn gyda Phrifysgol y Drindod Dewi Sant ar gyfer datblygu rhaglen o brofiadau cyfoethog i ddarpar athrawon y dyfodol. Mae'r staff yn gwneud defnydd wythnosol o raglen gynllunio gyfrifiadurol Cwmpawd, sy'n nodi sgiliau y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r Fframwaith yn cael ei gweithredu'n llawn drwy'r ysgol a cheir adroddiadau i rieni yn nodi cynnydd y disgyblion yn y meysydd yma.

Anghenion Dysgu Ychwanegol Mae'r ysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod pob plentyn yn teimlo'n rhan annatod o fywyd a gwaith yr ysgol ac yn cyflawni eu potensial fel unigolion. Mae'r ysgol yn adolygu y polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn rheolaidd er mwyn sicrhau cefnogaeth addas i ddisgyblion. Mrs Nia Gwyndaf yw'r llywodraethwraig sy'n gyfrifol am Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Disgyblion sydd ag anableddau Mae campws yr ysgol wedi ei addasu'n gyson er mwyn rhoi mynediad rhwydd i ddisgyblion sydd ag anableddau, gosodwyd rampiau i hybu mynediad i ddosbarthiadau a llwyddwyd drwy gynllunio gofalus i blethu plant ag anableddau yn llawn i gwricwlwm yr ysgol.

Categori iaith yr ysgol – Ysgol Gymraeg benodedig

Defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol

- Defnyddir y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 fel y brif iaith ym mhob rhan o waith cwricwlaidd ac allgyrsiol yr ysgol. Cyflwynir Saesneg i ddisgyblion ym Mlwyddyn 3.
- Y Gymraeg yw iaith gyfathrebu naturiol yr ysgol.
- Nid oes unrhyw gyfyngiad ar ddefnydd y Gymraeg yn yr ysgol, hyrwyddir y Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd a gwaith Ysgol Gymraeg Aberystwyth.
- Mae'r ysgol yn sicrhau drwy gynllunio gofalus fod yna barhad a datblygiad cyson yn y profiadau i ddefnyddio'r Gymraeg yn holl weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol yr ysgol.
- Mae disgyblion sy'n hwyr ddyfodiaid i'r ysgol yn medru cymryd mantais o ddarpariaeth y Ganolfan Iaith a drefnir gan yr Awdurdod Addysg yn ysgol uwchradd Penweddig.
- Mae disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion uwchradd y dref lle mae cyfleoedd iddynt barhau i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg. Mae cyfleoedd pontio estynedig ar gael i ddisgyblion sydd angen magu rhagor o hyder yn y Gymraeg ar gael yn ystod tymor yr Haf.

Trefniadau a chyfleusterau toiled -

Mae gan yr ysgol nifer addas o doiledau ar gyfer y disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol. Mae'r chyfleusterau yn cael eu glanhau yn ddyddiol gan wasanaeth glanhau yr Awdurdod Addysg. Mae 'Pwyllgor Taclo'r Toiledau' yn effeithiol sef criw o ddisgyblion sy'n gweithio ar ran y Cyngor Ysgol i wella y toiledau gyda'r Uwch Dim Rheoli.

Cynnal a chadw'r adeiladau

Mae'r ysgol wedi gwella diogelwch ger yr Unedd Feithrin drwy adnewyddu'r ffens sydd o gwmpas yr arda hon.

Diogelwch

Yn ymgythio i'r ysgol yn caniatáu disgybl i fod yn yr ysgol o 8.45 ymlaen (Clwb Brechwast 8.15-8.45). Yn y prynhawn bydd y plant Meithrin yn gadael am 3.20 a'r disgyblion eraill am 3.30. Cyn hynny mae disgwyl i rieni neu warchodwyr nodi eu presenoldeb yn y swyddfa ger y brif fynedfa.

Rhaid parcio'n ofalus o flaen yr ysgol a pheidio parcio mewn manau anabl/tacsi nac ar y gwair. Ni ddylid ychwaith barcio ar ffordd ysgol Plascrug oherwydd y peryg o dagfeydd traffig.

Mae diogelwch yn bwysig iawn i'r llywodraethwyr, yr Uwch Dim Reoli, y Cyngor Ysgol a'r staff. Rhaid bod yn ofalus a pharchu eraill.

Datblygiadau diogelwch yr adeilad – mae adnewyddu'r ffens sy'n rhan o ardal chwarae y Meithrin r ysgol wedi gwella diogelwch ac yn atal mynediad i ddiethriaid.

Torri i mewn

Cafwyd yr un achos o dorri i mewn i'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd yma (dwyn cyfrifiaduron o Flwyddyn 5)

Gobeithio eich bod wedi cael budd o ddarllen am ddatblygiadau'r ysgol brysur hon. Cofiwch gysylltu gyda'r Pennaeth os ydych am wybodaeth bellach am ddatblygiad yr ysgol.

Diolch i chi eto fel rhieni am eich hymrwymiad i'r ysgol, mae eich cefnogaeth gartref yn rhan bwysig i lwyddiant eich plant ac i ddiwylliant unigryw'r Ysgol Gymraeg'.

Mr Dewi Jones, Cadeirydd y Llywodraethwyr

**CYNGOR SIR CEREDIGION
DYDDIADAU GWYLIAU YSGOL 2017/18**

2017 - Medi						
Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
				1	2	3
4	5	6	7	8	9	10
11	12	13	14	15	16	17
18	19	20	21	22	23	24
25	26	27	28	29	30	

2017 - Hydref						
Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
						1
2	3	4	5	6	7	8
9	10	11	12	13	14	15
16	17	18	19	20	21	22
23	24	25	26	27	28	29
30	31					

2017 - Tachwedd						
Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
		1	2	3	4	5
6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26
27	28	29	30			

2017 - Rhagfyr						
Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
				1	2	3
4	5	6	7	8	9	10
11	12	13	14	15	16	17
18	19	20	21	22	23	24
25	26	27	28	29	30	31

2018 - Ionawr						
Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30	31				

2018 - Chwefror						
Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
			1	2	3	4
5	6	7	8	9	10	11
12	13	14	15	16	17	18
19	20	21	22	23	24	25
26	27	28				

2018 - Mawrth						
Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
			1	2	3	4
5	6	7	8	9	10	11
12	13	14	15	16	17	18
19	20	21	22	23	24	25
26	27	28	29	30	31	

2018 - Ebrill						
Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
						1
2	3	4	5	6	7	8
9	10	11	12	13	14	15
16	17	18	19	20	21	22
23	24	25	26	27	28	29
30						


2018 - Mai						
Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
	1	2	3	4	5	6
7	8	9	10	11	12	13
14	15	16	17	18	19	20
21	22	23	24	25	26	27
28	29	30	31			

2018 - Mehefin						
Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
				1	2	3
4	5	6	7	8	9	10
11	12	13	14	15	16	17
18	19	20	21	22	23	24
25	26	27	28	29	30	

2018 - Gorffennaf						
Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
						1
2	3	4	5	6	7	8
9	10	11	12	13	14	15
16	17	18	19	20	21	22
23	24	25	26	27	28	29
30	31					

2018 - Awst						
Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
		1	2	3	4	5
6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26
27	28	29	30	31		

DIWRNOD GOSOD ATHRAWON
GWYLIAU YSGOL

 Llun 4 Medi 2017 a Llun 16 Ebrill 2018

Gwyliau Banc
Gwen y Grog - 30.03.18
Llun y Pasg - 02.04.18

Gŵyl Dechrau Mai - 07.05.18
Gŵyl Banc y Gwanwyn - 28.05.18

DYDDIADAU TYMOR I DDISGYBLION

Tymor	Dechrau	Hanner Tymor		Diwedd	Diwrnodau ysgol
		Dechrau	Diwedd		
Hydref 2017	Mawrth 5 Medi 2017	Llun 30 Hyd 2017	Gwener 3 Tach 2017	Gwener 22 Rhag 2017	74
Gwanwyn 2018	Llun 8 Ion 2018	Llun 19 Chwe 2018	Gwener 23 Chwe 2018	Iau 29 Mawrth 2018	54
Haf 2018	Mawrth 17 Ebrill 2018	Llun 28 Mai 2018	Gwener 1 Mehefin 2018	Mawrth 24 Gorff 2018	65
Plws diwrnodau gosod athrawon Llun 4 Medi 2017 a Llun 16 Ebrill 2018					2
CYFANSWM					195

Noder fod y calendr hwn yn amodol ar unrhyw newidiadau all ddeillio o benderfyniadau polisi'r llywodraeth. Nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw gollodion a ddaw yn sgil y math yma o newid i'r trefniadau gwyliau.